# Cynllun Ysgol Cartref Ysgol Pen Barras

Ar ran staff a Llywodraethwyr yr ysgol hoffwn estyn croeso cynnes iawn i chi i Ysgol Pen Barras Credwn yn gryf iawn yn y bartneriaeth rhwng ysgol a chartref y plant a bod hyn yn cael effaith bositif ar addysg y plant. Mae Cynllun Ysgol Cartref yn gytundeb statudol y mae gofyn i ni gyflwyno i chi fel rhieni neu warchodwyr.

Mae gan rieni/warchodwyr ddyletswyddau, fel yr ysgol tuag at y plant. Rydym wedi eu gosod allan isod gan gynnwys addewidion gan y plant eu hunain.

**Addewidion Rhieni neu Warchodwyr:-**

**Yr ydym yn addo derbyn amcanion yr ysgol a chefnogi'r athro / athrawes dosbarth.**

Rydym am ymdrechu i:

- sicrhau presenoldeb prydlon a chyson ac anfon rheswm am unrhyw absenoldebau.
- gefnogi safonau uchel o ran gwaith ac ymddygiad.
- sicrhau bod gan yr ysgol y wybodaeth ddiweddaraf o ran cysylltu mewn argyfwng.
- sicrhau bod yr ysgol yn gwybod beth yw'r trefniadau amser mynd adref a phwy fydd yn casglu'r plant o'r ysgol ac i gefnogi'r côd ymddygiad sydd yn sicrhau awyrgylch ddiogel, ofalgar a disgybledig.
- adael i'r ysgol wybod os oes unrhyw broblemau ym mywyd fy mhlentyn sydd am amharu ar ei addysg.
- fynychu cyfarfodydd rhieni i gael clywed am ddatblygiad fy mhlentyn.
- gefnogi fy mhlentyn yn ei waith cartref.
- gefnogi digwyddiadau cymunedol yr ysgol.
- gefnogi holl bolisïau'r ysgol..

**Addewidion yr Ysgol:**

Fe wnawn ein gorau i'ch croesawu'n gynnes i'r ysgol ac i roi pob cyfle bosib i chi gael chwarae rhan yn addysg eich plentyn. Rydym yn addo rhannu gwybodaeth â chi'n gyson am ddatblygiad eich plentyn a'ch hysbysu o unrhyw bryderon sydd gennym ynglŷn â'i addysg neu ei ymddygiad. Fe wneir pob ymdrech bosib i gynnig addysg o'r radd flaenaf, yn addysgiadol ac yn gymdeithasol.

Bydd yr ysgol yn anelu i:

- osod safonau uchel ac i gynnig addysg o'r radd flaenaf.
- annog eich plentyn i gyrraedd ei lawn / ei llawn botensial ym mhob agwedd o fywyd ysgol.
- ofalu am eich plentyn fel aelod gwerthfawr o gymuned yr ysgol beth bynnag fo'i gefndir, rhyw na Chrefydd.
- ddilyn côd ymddygiad sydd yn annog awyrgylch ofalgar, ddiogel a disgybledig.
- gynnig cwricwlwm eang i ateb gofynion pawb.
- hysbysu rhieni o unrhyw newidiadau ym mholisïau'r ysgol ac i readru gwybodaeth gyffredinol am fywyd bob dydd yr ysgol.
- ymestyn gofal o safon uchel i bawb sydd yn ymwneud â'r ysgol.

**Addewidion y disgybl:**

**Er mwyn sicrhau bod y cytundeb rhwng fy rhieni / gofalwyr, fy ysgol a fi yn llwyddiannus mae'n rhaid i fi:**

- fynychu'r ysgol yn rheolaidd, bod yn barod i ddysgu a chymeryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol.
- cydweithredu â'r staff a derbyn awdurdod yr ysgol a rheolau'r ysgol.
- gwneud fy ngorau glas yn fy ngwaith a pheidio ag amharu ar eraill.
- ystyried teimladau ac eiddo eraill o fewn yr ysgol.
- ofalu am yr ysgol, yr adeilad, tir, dodrefn, offer, llyfrau ac unrhyw eiddo ar dir yr ysgol.

**Datganiad ar y Cyd**

Trwy weithio ar y cyd ein gobaith yw sicrhau profiad pleserus, positif ac adeiladol i bob plentyn o fewn teulu'r ysgol a datblygu pob plentyn i'w lawn botensial.